*Ysgol Plas Coch*
*Ffordd Stansty*
*Wrecsam*
*LL11 2BU*
*Ffôn: 01978 311198*
*Ffacs: 01978 311198*

Ysgol Plas Coch
Stansty Road
Wrexham
LL11 2BU
Tel: 01978 311198
Fax: 01978 311198

# YSGOL PLAS COCH

**Mr Osian Jones BA**
***Pennaeth* Head Teacher**

*E-bost*/E-mail: **mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk**
*Gwefan*/Website: https://ysgolplascoch.cymru

**Mabolgampau Blwyddyn 3,4,5 a 6 – 05:07:23 (bore, cychwyn am 9:30)**

Annwyl rieni a gwarchodwyr,
Fel y gwyddoch, cynhelir mabolgampau Blynyddoedd 3,4,5 a 6 **Dydd Gwener, Gorffennaf 5ed** gan gychwyn am 9:30am, os bydd y tywydd yn caniatáu. Dyma ychydig o wybodaeth am y diwrnod:

- Mi fydd y rasus yn cychwyn am 9:30am a wedi gorffen erbyn tua 12:15pm
- Mae'r plant i ddod i'r ysgol os yn bosib yn lliwiau eu llysoedd:

  Blodeuwedd – melyn
  Gwydion – gwyrdd
  Rhiannon – gwyn
  Pryderi – coch
  Os nad oes rhywbeth o'r lliw uchod gan eich plentyn, gallant wisgo eu dillad addysg gorfforol arferol.

- Does dim digon o gadeiriau efo ni yn yr ysgol, felly os am eistedd a wnewch chi ddod â'ch cadair eich hun gan eistedd wrth ochr y trac, tu ôl i'r rhaff, nesaf at y ffens
- **A wnewch chi os gwelwch yn dda beidio â cherdded at yr ardal y mae'r plant yn eistedd ar ochr arall y trac.**
- Os yw hi'n boeth a wnewch chi sicrhau fod gan eich plentyn gap / het a'ch bod wedi rhoi eli haul arno / arni cyn dod i'r ysgol. Os yw'r plant yn medru rhoi eli haul eu hunain, mae croeso iddynt wneud hyn. Hefyd sicrhewch fod digon o ddwr gan eich plentyn.
- Os na allwn gynnal y mabolgampau oherwydd y tywydd, byddwn yn gwneud penderfyniad cyn gynted â phosib yn y bore, gan adael i chi wybod ar yr app a'ch hysbysu pan fyddwn wedi gosod dyddiad newydd.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad,

Osian Jones



wrexham
COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL
wrecsam